# Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru

## 27 Tachwedd 2015, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Llandrindod

## Cofnodion

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Michael Prior (MP) | Cadeirydd Annibynnol |
| Y Cyngh. Tudor Owen (TO) | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Y Cyngh. Sylvia Jones (SJ) | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru |
| Adrian Hughes (AH) | Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn |
| John Salt (JS) | Cymdeithas y Swyddogion Tân |

**Y Swyddogion oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx (DD) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) |
| Liz Aitken (LA) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) |
| Phil Haynes (PH) | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)**

| | |
|---|---|
| Steve Pomeroy (SP) | Cangen Gwasanaethau Tân |
| Cerys Myers (CM) | Cangen Gwasanaethau Tân |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Y Cyngh. Wynne Evans | Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Sean Starbuck | Undeb y Brigadau Tân |
| Grant Mayos | Undeb y Brigadau Tân, Aelod o'r Cyngor Gweithredol ar gyfer Cymru |
| Paul Scott | Cymdeithas y Swyddogion Tân |
| Huw Jakeway | Cymdeithas y Prif Ddiffoddwyr Tân |
| Helen Griffiths | Cangen Gwasanaethau Tân |

### Eitem 1 yr Agenda – Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod. Darparodd CM ymddiheuriadau'r aelodau absennol ac aeth ati i gydnabod bod John Salt yn cynrychioli Cymdeithas y Swyddogion Tân yn absenoldeb Paul Scott. Dywedodd Liz Aitken ei bod hi'n cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chymdeithas y Prif Ddiffoddwyr Tân yn absenoldeb Huw Jakeway. Aeth John Salt ati i ddatgan ei fod wedi derbyn un o'r cynlluniau pensiwn. Cadarnhaodd MP nad oedd hwn yn wrthdaro buddiannau.

### Eitem 2 yr Agenda – Cofnodion y cyfarfod diwethaf

2. Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf a gwahoddodd yr aelodau i gytuno bod y cofnodion yn fanwl gywir. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

**Eitem 3 yr Agenda – Materion yn codi**

3. Roedd mwyafrif y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Esboniodd MP y byddai'r diweddariad ar y camau gweithredu yn erbyn y cylch gorchwyl, cyfraddau cyfraniad y cyflogeion a gwerthusiad 2016 yn dod o dan yr agenda. Trafodwyd rhai o'r pwyntiau gweithredu:-

- **Hyfforddiant** - Trafododd y Bwrdd yr hyfforddiant a gyflwynwyd gan Gynghorydd Pensiwn Diffoddwyr Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Clair Alcock, ar 4 Tachwedd 2015. Roedd DD yn cydnabod nad oedd posib i aelodau o Ogledd Cymru fynychu ond dywedodd y byddai'r gofynion hyfforddi'n cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Pensiwn Lleol Gogledd Cymru. Dywedodd LA y bydd Bwrdd Pensiwn Lleol Canolbarth Cymru'n addasu'r Pecyn Adnoddau Rheoleiddio Pensiynau yn unol ag anghenion ei aelodau, ond cyfeiriodd at yr anhawster o gadarnhau presenoldeb aelodau. Cytunai MP y bydd rhannau o'r Pecyn Adnoddau'n fwy perthnasol nag eraill. Roedd PH yn cydnabod nad oedd wedi dosbarthu'r sleidiau hyfforddi y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod diwethaf. Yng ngoleuni'r sesiwn hyfforddi a gyflwynwyd gan Clair, mae'r sleidiau wedi cael eu haddasu ers hynny a byddant yn cael eu dosbarthu'n fuan.

- **Cynhyrchu Cyfrifiannell Ar-lein** - Dywedodd SP y gallai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gynhyrchu cyfrifiannell ar-lein, ond byddai hon yn dasg ddrud iawn i Adran Actiwari'r Llywodraeth (AALl) ymgymryd â hi. Byddai'n anodd, os nad yn amhosib, cynhyrchu cyfrifiannell a fyddai'n ystyried yr holl derfynau perthnasol a hefyd yn hawdd i aelodau'r cynllun ei defnyddio. Roedd PH yn cytuno ac awgrymodd y gallai gweinyddwyr y cynllun edrych ar achosion unigol, ond roedd yn cydnabod y byddai hyn yn ychwanegu at y baich gwaith mawr sydd eisoes ar weinyddwyr y cynllun. Cyfeiriodd DD ac LA at Gynllun Pensiwn Dyfed sydd â chyfrifiannell ar-lein ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Awgrymodd LA y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn datblygu rhywbeth tebyg. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaeth ar y budd o ddatblygu cyfrifiannell ac roedd yr aelodau'n gytûn bod y costau'n fwy na'r manteision.

- **Data Optio Allan** - Esboniodd MP bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn rhywfaint o fanylion am ddata optio allan ond nid oedd yn ddigon cadarn ar gyfer cymharu uniongyrchol. Esboniodd CM bod yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn amharod i rannu ffigurau gan fod y data'n anghyflawn. Gallai hynny gyflwyno darlun camarweiniol. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi dweud bod eu cyfradd optio allan yn 2.6%, ond nid ydynt yn cofnodi'r rhesymau dros adael y cynllun.

- **Milne v AALl** - Holodd MP am sefyllfa ddiweddaraf yr achos Pensiynau Milne v AALl gan yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd PH y bydd ATA De Cymru'n prosesu taliadau ar 15 Rhagfyr. Roedd ansicrwydd ynghylch amseriad y

taliadau ar gyfer Awdurdodau Tân Canolbarth a Gorllewin a Gogledd Cymru. Esboniodd CM bod Llywodraeth Cymru'n gwneud llawer o'r gwaith paratoi cyn derbyn y ffigurau terfynol gan bob ATA, fel bod posib talu'n ôl i bob ATA yn gyflym i liniaru unrhyw broblemau rheoli arian.

**CAM GWEITHREDU**: DD ac LA i gadarnhau amseriad y taliadau iawndal i'w ATA perthnasol.

**Eitem 4 yr Agenda – Cylch Gorchwyl**

4. Esboniodd MP bod yr eitem agenda hon yn ddilyniant i gam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf ble mynegwyd pryderon am anghydbwysedd posib yn aelodaeth y grŵp. Cafodd SP wahoddiad gan MP i gyflwyno papur FPSABW(15)05. Esboniodd SP bod aelodaeth y Bwrdd wedi cael ei phenderfynu gan y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan fod rhai sylwadau wedi codi am anghydbwysedd, roedd Llywodraeth Cymru'n teimlo ei bod yn briodol darparu tri opsiwn i'w hystyried gan y Bwrdd o ran y cyngor mae'n ei ddarparu:

1) Dim newid. Yr holl aelodau i fynegi eu safbwyntiau ond, os nad oes consensws, mwyafrif syml sy'n ennill.
2) Rhaid i bob penderfyniad gan y Bwrdd adlewyrchu mwyafrif o gynrychiolwyr y cyflogeion a'r cyflogwyr (h.y. o leiaf dri chynrychiolydd ar ran y cyflogeion ac o leiaf ddau gynrychiolydd ar ran y cyflogwyr).
3) Byddai pob cyngor gan y Bwrdd yn cynnwys unrhyw safbwyntiau gwahanol sydd ymhlith ei aelodau; ni fyddai angen pleidleisio ar unrhyw fater.

5. Esboniodd SP mai dim ond awgrymiadau oedd y rhain ac y byddai Llywodraeth Cymru'n fodlon ystyried cynigion eraill. Ystyriwyd yr opsiynau i gyd a daeth y Bwrdd i'r casgliad mai opsiwn tri oedd yr opsiwn tecaf. Fodd bynnag, gofynnodd DD am i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan bob ATA gael eu cofnodi'n fanwl, yn hytrach na disgrifio'r sefyllfa/safbwyntiau fel consensws y cyflogwyr. Cytunai MP â gweithredu fel hyn ond ailadroddodd ei bod yn bwysig bod yr holl aelodau'n bresennol er mwyn sicrhau bod cyngor cytbwys yn cael ei roi. Trafodwyd cworwm fel opsiwn. Os bydd nifer isel o aelodau'n bresennol, esboniodd MP y bydd yn defnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a fydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y cyfarfod ai peidio, ynteu a fydd yn cael ei ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

6. Tynnodd PH sylw at y ffaith nad oedd y cylch gorchwyl presennol yn manylu ar berthynas y Bwrdd gyda rheolwr y cynllun (ATA) ac roedd yn teimlo bod angen manylu ar gyfansoddiad yr aelodaeth hefyd. Ychwanegodd PH bod aelodau'r Bwrdd yn cael eu henwebu gan y tri awdurdod ac nid y gwasanaethau. Cytunai'r Bwrdd â'r sylwadau.

7. Byddai Papur FPSABW(15)05 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a awgrymwyd.

**Eitem 5 yr Agenda - Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru): Cynigion ar gyfer Elw Cyfraddau Cyfraniad y Cyflogeion**

8. Cyflwynodd SP bapur FPSABW (15)06 a oedd yn cyflwyno cynigion i'r aelodau ar gyfer sut gall y Bwrdd fonitro elw cyfraddau cyfraniad y cyflogeion. Esboniodd SP bod cyfraddau cyfraniad presennol y cyflogeion wedi'u pennu tan 31 Mawrth 2019. Esboniodd SP y byddai'r elw'n cael ei fonitro'n flynyddol, gan helpu i sicrhau arwyddion o risg o beidio â chyflawni'r elw.

9. Awgrymodd PH bod ymddeol yn fater pwysig. Er bod costau uwch yn gysylltiedig â Chynllun 1992, roedd aelodau newydd a oedd yn dod yn rhan o gynllun pensiwn 2015 yn dod i gymryd lle'r rhai a oedd yn ymddeol o'r cynllun hwn. O ganlyniad, roedd PH yn meddwl y gallai hynny gael effaith ar yr elw.

10. Cyfeiriodd LA at adroddiad gwerthuso 2012 a oedd yn cymryd yn ganiataol y byddai nifer o ymddeoliadau'n digwydd, gan fod mwyafrif yr aelodau yng Nghynllun 1992. Nid oedd hyn yn wir yn ATACGC. O ganlyniad, credai LA y byddai'r elw'n rhagori ar y gyfradd o 13.2%. Nid oedd PH yn cytuno a chredai y byddai nifer yr ymddeoliadau o Gynllun 1992 yn golygu na fyddai'r elw'n cyrraedd y gyfradd o 13.2%. Ychwanegodd DD bod rhagdybiaeth y bydd un aelod o'r cynllun yn dod i gymryd lle aelod arall, ond nid oedd hyn yn wir bob amser. Roedd posibilrwydd hefyd y bydd yn ofynnol i bob ATA leihau ei nifer o swyddi o ganlyniad i doriadau posib i'w cyllid.

11. Cadarnhaodd SP y gellir newid cyfraddau cyflogeion ond ni fyddai hyn yn newid yr elw. Byddai unrhyw newidiadau i'r elw ei hun yn cynnwys ymgynghoriad a diwygio deddfwriaeth.

**Eitem 6 yr Agenda - Gwerthusiad Actiwaraidd o Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2016**

12. Cyflwynodd MP FPSAB (15) 07 a oedd yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwerthusiad 2016 fel yr awgrymwyd gan Drysorlys EM. Cyflwynwyd yr amserlen yng nghynhadledd werthuso AALl ar 16 Medi, a fynychwyd gan MP a HG. Esboniodd MP bod gwerthusiadau actiwaraidd yn ofynnol yn unol â threfn Trysorlys EM ac mae'r amserlen arfaethedig yn berthnasol i holl gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Cyfeiriodd MP at y dyddiad cyntaf, sef Rhagfyr 2015. Cadarnhaodd CM bod cais wedi'i wneud i bob ATA gyflwyno sylwadau ar fanylion y gwerthusiad drafft i Lywodraeth Cymru erbyn 14eg Rhagfyr.

13. Esboniodd MP y bydd rhaid i'r Bwrdd ystyried y rhagdybiaethau gwerthuso sydd wedi'u drafftio gan AALl fel rhan o'r broses. Wrth benderfynu ar y rhagdybiaethau gwerthuso, y prif bethau fydd marwolaeth a chyfraddau oedran ymddeol. Awgrymodd MP bod y Bwrdd yn gwahodd AALl i gyflwyno eu canfyddiadau mewn cyfarfod yn 2017.

**CAM GWEITHREDU:** Llywodraeth Cymru i wneud nodyn o'r awgrym i wahodd AALl i gyfarfod o Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn 2017.

14. Holodd SJ am effaith peidio â chadw at yr amserlen a gyflwynwyd. Esboniodd SP ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol sefydlu gwerthusiad erbyn mis Ebrill 2018 a'i fod yn fwy buddiol i bob ATA wybod canlyniad y gwerthusiad o ran y cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd ymhell ymlaen llaw cyn dyddiad eu gweithredu, sef

mis Ebrill 2019. Cwestiynodd SJ yr effaith fyddai hawliau gwarchodedig/hawliau pontio a chontractio allan yn ei chael ar y cynllun. Dywedodd PH y byddai'n costio £150k i Dde Cymru mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**Eitem 7 yr Agenda - Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân: Costau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2011-2015**

15. Cyflwynodd SP bapur FPSABW(15) 08 yn manylu ar gost cynlluniau pensiwn yng Nghymru. Roedd y papur yn adlewyrchu'r tueddiadau incwm a gwariant mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Roedd y papur yn tynnu sylw at gynnydd yng nghyfraddau cyfraniad y cyflogeion a gostyngiad yng nghyfraddau cyfraniad y cyflogwyr. Esboniodd SP bod y wybodaeth yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn cyflwyno Cynllun 2015 ac felly dim ond i gostau Cynlluniau 1992 a 2007 mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn berthnasol. Esboniodd SP bod Llywodraeth Cymru'n ychwanegu at y Gronfa Bensiwn drwy Wariant a Reolir yn Flynyddol gan Drysorlys EM.

16. Cyfeiriodd PH at y gostyngiad yng nghostau'r aelodau oedd yn trosglwyddo i'r cynllun pensiwn yn 2014/15. Awgrymodd PH mai'r rheswm am hyn o bosib oedd y ffaith bod mwy o aelodau'n trosglwyddo i'r Cynllun o gynlluniau sector preifat, sy'n llai o werth na chynlluniau cyhoeddus eraill, fel y Lluoedd Arfog neu'r Heddlu. Ychwanegodd DD nad oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi recriwtio ers nifer o flynyddoedd, ac y gallai hynny esbonio'r gostyngiad o bosib. Mae pob ATA wedi gorfod rheoli eu gweithluoedd ac felly wedi gweld gostyngiad yn nifer yr aelodau sy'n trosglwyddo i'r cynllun. Yn y pen draw, mae hyn wedi cael effaith ar gyfanswm cyfraddau cyfraniad y cyflogeion.

17. Roedd y Bwrdd yn teimlo bod y papur yn ddefnyddiol ac yn croesawu diweddariadau blynyddol.

**CAM GWEITHREDU:** Llywodraeth Cymru i barhau i gasglu data a darparu diweddariad i'r Bwrdd yn flynyddol.

**Eitem 8 yr Agenda – Diwygiadau Arfaethedig i'r Cynllun**

18. Dywedodd SP wrth y Bwrdd am un diwygiad arfaethedig i'r Cynllun. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2015 ddiwygiad i 'gywiro'r anghyfiawnder hanesyddol i briod heddwas, diffoddwr tân neu aelod o'r gwasanaethau cudd-wybodaeth sy'n colli ei fywyd pan mae ar ddyletswydd'. Esboniodd SP bod unrhyw bartner sy'n goroesi ac sy'n ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd yn colli'r hawl am fudd-dal marwolaeth ar hyn o bryd.

19. Esboniodd SP bod Llywodraeth yr Alban wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd pensiynau'n cael eu hailddatgan ar gyfer aelodau cynllun tân yr Alban 1992 ac y byddant yn berthnasol i bartneriaid sy'n goroesi yr aelodau gweithredol o'r cynllun a fu farw ar ddyletswydd. Gofynnodd SP am farn yr aelodau ar gyflwyno trefniadau tebyg yng Nghymru. Esboniodd SP mai dim ond i aelodau Cynllun 1992 fyddai'r diwygiad yn berthnasol, gan fod aelodau cynllun 2007 yn gymwys i gael yr hawl hon eisoes.

20. Pwysleisiodd DD yr angen am ddiffiniad cadarn o 'ar ddyletswydd' i atal unrhyw gamddehongli. Er enghraifft, os bydd rhywun yn cael trawiad ar y galon wrth gyfrannu at ddigwyddiad hyfforddi, nid oedd yn glir a fyddai hynny'n gymwys o dan 'ar ddyletswydd'. Gofynnodd SJ a fyddai'r diwygiad yn berthnasol i bob aelod o Gynllun 1992. Cadarnhaodd SP y byddai'n berthnasol i unrhyw bartner sy'n goroesi ac sy'n ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd. Ychwanegodd SP mai nifer isel o farwolaethau sydd wedi bod ar ddyletswydd ac felly mae disgwyl i nifer y rhai a effeithir fod yn isel iawn.

21. Cefnogai DD a PH y diwygiad mewn egwyddor ond gofynnwyd ganddynt am esboniad mewn perthynas â'r taliadau am yn ôl. Esboniodd SP bod dau opsiwn i'w hystyried o ran y taliadau am yn ôl. Yr opsiwn cyntaf yw ad-dalu'r taliad o'r dyddiad y daeth y gorchymyn hwnnw i rym; yr ail opsiwn yw ad-dalu o'r dyddiad pryd mae'n ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd. Awgrymodd PH y dylid edrych yn fanwl ar yr effaith y byddai'r ddau opsiwn yn ei chael a thrafod hynny yn y cyfarfod nesaf. Cytunai SP â'r dull hwn o weithredu ac esboniodd na allai'r newid ddigwydd nes bod etholiad y Cynulliad wedi'i gynnal.

**CAM GWEITHREDU:** Llywodraeth Cymru i ymchwilio.

22. Ychwanegodd SP nad yw Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o unrhyw ddiwygiadau pellach ond mae'n debygol y bydd rhagor.

**Eitem 9 yr Agenda – Adborth o'r Byrddau Pensiwn Lleol**

23. Gwahoddodd MP bob un o'r tri gwasanaeth i roi adborth o'r Byrddau Pensiwn Lleol. Esboniodd PH bod De Cymru wedi cynnal dau gyfarfod hyd yma (2$^{il}$ Gorffennaf ac 2$^{il}$ Tachwedd) gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod pellach i adlewyrchu Bwrdd Cynghori Cynllun Cymru sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal 4$^{ydd}$ cyfarfod a fyddai'n canolbwyntio ar anghenion hyfforddi i gyd-fynd â chyflenwi datganiadau budd blynyddol. Mynegodd PH bryder am yr effaith y gallai etholiadau lleol ei chael ar aelodau'r Bwrdd; nid oes gwarant y caiff aelodau eu hailethol ac awgrymwyd y dylid sefydlu cynllun wrth gefn.

24. Esboniodd LA y byddai ail gyfarfod Bwrdd Pensiwn Lleol y Canolbarth a'r Gorllewin yn cael ei gynnal ar 10 Rhagfyr. Byddai'r agenda'n cynnwys sesiwn hyfforddi ac wedyn cyfarfod. Bydd yr elfen sesiwn hyfforddi'n canolbwyntio ar gyflwyno gwefan y Rheoleiddiwr Pensiynau, fel bod gan aelodau hyder i gwblhau'r adrannau'n annibynnol. Mae'r Canolbarth a'r Gorllewin wedi cael trafferth gyda chael yr un cynghorwyr i fynychu pob un o'r cyfarfodydd ac felly mae wedi penodi dau aelod o staff i gynrychioli'r cyflogwr at bwrpas cysondeb.

25. Esboniodd DD y byddai ail gyfarfod Bwrdd Pensiwn Lleol Gogledd Cymru'n cael ei gynnal ar 30 Tachwedd. Byddai'r agenda'n cynnwys sesiynau ar wrthdaro buddiannau a chyfathrebu ar gyfer aelodau, i drafod sefyllfaoedd posib ac i ddeall beth a sut mae pethau'n cael eu cyfathrebu.

26. Awgrymodd PH bod adborth o'r Byrddau Pensiwn Lleol yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ddosbarthu i aelodau Bwrdd Cynghori'r Cynllun, fel rhan o'r papurau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Roedd pawb yn gytûn y byddai'n

ddefnyddiol cael gwybodaeth gan bob un o’r Byrddau a chytunwyd gyda’r dull o weithredu i rannu’r diweddariadau gydag aelodau Bwrdd Cynghori Cynllun Cymru.

**CAM GWEITHREDU:** Y tri ATA i ddarparu diweddariad gan y Byrddau Pensiwn Lleol i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru i gynnwys y diweddariad yn y papurau sy’n cael eu dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Cynghori’r Cynllun yn y dyfodol.

27. Esboniodd MP ei fod yn aelod o fwrdd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac y bydd yn dosbarthu unrhyw ddeunyddiau hyfforddi sy’n cael eu cynhyrchu gan y bwrdd hwnnw a all fod o ddiddordeb/budd i Fwrdd Cynghori’r Cynllun. Awgrymodd DD y gallai cyfarfodydd Bwrdd Cynghori’r Cynllun yn y dyfodol gynnwys eitem agenda ‘dysgu cyffredinol gan’.

**CAM GWEITHREDU:** Llywodraeth Cymru i gynnwys ‘dysgu cyffredinol gan’ fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol.

**Eitem 10 yr Agenda – Unrhyw Fater Arall**

28. Holodd LA a fyddai modd adfer y costau cysylltiedig â Bwrdd Cynghori’r Cynllun a’r Byrddau Pensiwn Lleol, fel gyda chostau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy’n dod o’r ychwanegiad cyllido. Esboniodd SP bod cofnod ar wahân am yr ychwanegiad cyllido. Bydd Llywodraeth Cymru’n edrych gyda Thrysorlys EM i weld a oes opsiwn i gynnwys llinell ar gyfer ‘costau gweinyddu ar gyfer cynllun 2015’.

**CAM GWEITHREDU:** LlC i edrych gyda Thrysorlys EM i weld a oes opsiwn i gynnwys llinell ar gyfer ‘costau gweinyddu ar gyfer cynllun 2015’.

**Eitem 11 yr Agenda – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

29. Roedd yr aelodau’n fodlon gyda chynnal y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill. Gofynnodd SP i’r aelodau a oeddent yn hapus gyda lleoliad y cyfarfodydd. Cytunodd yr aelodau eu bod yn fodlon gyda’r lleoliad ond dywedodd DD y byddai cyfarfod yn y bore yn fwy ffafriol. Roedd pawb yn cytuno.

**CAM GWEITHREDU:** Llywodraeth Cymru i holi am argaeledd yr aelodau a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.